CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
CYFARFOD:	**Pwyllgor Safonau**
DYDDIAD:	**14 Medi, 2016**
TEITL YR ADRODDIAD:	**Nodyn Briffio i Aelodau - Newidiadau Statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Adrodd i'r Pwyllgor Safonau ar nodyn briffio arfaethedig i'r Aelodau ynghylch y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad**
ADRODDIAD GAN:	**Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol**
SWYDDOG CYSWLLT:	**Mared Wyn Yaxley mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566**

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

A) Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a chynghorau cymuned / tref yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig.

B) Gwnaed newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008.

C) Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig ar 12 Mai 2016.

Ch) Mae **Atodiad 1** ynghlwm yn cynnwys Nodyn Briffio drafft i'r Aelodau yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

2. ARGYMHELLIAD

A) Nodi cynnwys y Nodyn Briffio.

B) Cadarnhau y gellir dosbarthu'r Nodyn Briffio i'r Aelodau Etholedig yn enw'r Pwyllgor Safonau.

Atodiad 1

NODYN BRIFFIO
Newidiadau Statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Rhaid i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned lleol yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig. Fel aelod etholedig, rydych wedi darparu ymrwymiad ysgrifenedig i lynu wrth ofynion côd ymddygiad yr awdurdod lleol hwn yn ystod eich cyfnod yn y swydd.

Mae "Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol)(Cymru) (Diwygiad) 2016" a "Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016" wedi gwneud newidiadau i'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008. Mabwysiadwyd y newidiadau hyn i'r Côd gan y Cyngor hwn ar 12 Mai 2016. Mae newidiadau eraill, sy'n dod i rym yn awtomatig ac nad oes angen i'r Cyngor eu mabwysiadu, wedi eu crynhoi isod.

2. CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

I'ch cynorthwyo gyda'ch dyletswydd fel Aelod, mae'r canlynol yn grynodeb o'r newidiadau sy'n codi o'r ddeddfwriaeth newydd: -

2.1 COSBAU

Mae'r cyfnod gwaharddiad a bennir gan bwyllgor safonau wedi ei gyfyngu i gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu i weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd os yw'n llai na 6 mis. Felly, os gwaherddir Aelod am 6 mis, ond dim ond 2 fis ar ôl o'r cyfnod yn y swydd, dim ond gwaharddiad o 2 fis a roddir i'r Aelod.

2.2 CANIATÂD I APELIO

Mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau.

2.3 RHOI GWYBOD AM ACHOS O DORRI'R CÔD

Os byddwch yn credu'n rhesymol bod y Côd wedi ei dorri, mae'n rhaid i chi roi gwybod am hynny i'r Swyddog Monitro. Mae'r rheidrwydd arnoch i roi gwybod am achos posib o dorri'r Côd i'r Ombwdsmon wedi ei ddileu, er y gall y Swyddogion Monitro barhau i'ch cynghori i wneud hynny.

2.4 DIDDORDEB PERSONOL – MATERION WARD AC AWDURDOD

Mae'r ddarpariaeth diddordeb personol ynghylch gwrthdaro ymddangosiadol rhwng rôl yr Aelod yn ei ward a'r penderfyniadau a wneir ar ran yr Awdurdod wedi cael ei dileu. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir, o ran dod i benderfyniadau mewn ffordd wrthrychol, erys gofyniad i chi ddod i benderfyniadau gyda meddwl agored ac i wneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen. Mae'r gofyniad i beidio â bod wedi penderfynu ymlaen llaw wedi ei ymestyn i gynnwys materion mewn perthynas â wardiau hefyd.

2.5 DIDDORDEB PERSONOL A DIDDORDEB SY'N RHAGFARNU - SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Pan fydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu, gallwch barhau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater yn y cyfarfod hwnnw. Mae'r rheolau presennol yn dal i fod mewn grym o ran eich presenoldeb yn y cyfarfod; ar ôl gwneud cyflwyniadau rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr cyn i unrhyw drafodaeth gychwyn ar yr eitem. Os nad yw'r cyhoedd yn cael siarad ar y mater rhaid i chi nodi na chewch chi wneud hynny 'chwaith na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

2.6 CANIATADAU ARBENNIG

Mae categori caniatâd cyffredinol newydd wedi ei gyflwyno. Mae'r ddarpariaeth newydd yn rhoi grym i bwyllgor safonau roi caniatâd arbennig i adael i aelod gymryd rhan mewn cyfarfod os oes ganddo ef / hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu os yw'r pwyllgor safonau yn ystyried bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau.

2.7 COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Mae'r gofynion ar gyfer cofrestru diddordebau yn cael eu hegluro, i'w gwneud yn ofynnol i gofnodi unrhyw ddiddordeb a ddatgelir am y tro cyntaf yn y gofrestr o ddiddordebau aelodau cyn pen 28 diwrnod. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at unrhyw newidiadau i ddiddordebau sydd eisoes wedi eu cofrestru; mae'n rhaid diweddaru 'rhain cyn pen 28 niwrnod i unrhyw newid hefyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Nodyn Briffio hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Mared Wyn Yaxley ar mwycs@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752566